

## **Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2021.

**Eluned Morgan AS**  
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

19 Tachwedd 2021

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio:

- [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol\) \(Cymru\) 2020](#) (“y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol”);
- [Rheoliadau Diogelu Iechyd \(Cyfyngiadau Coronafeirws\) \(Rhif 5\) \(Cymru\) 2020](#) (“y Rheoliadau Cyfyngiadau”).

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

*Dod i rym*

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, hysbyswyd y Llywydd nad yw'r Rheoliadau yn cydymffurfio â'r confensiwn 21 o ddiwrnodau. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd y risg a berir mewn perthynas â'r coronafeirws ac yn enwedig straeniau sy'n amrywiolion o'r feirws hwnnw, oddi wrth deithwyr sy'n teithio i'r DU. Mae'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn parhau â'r ymagwedd gyffredin ar draws y pedair gwlad mewn perthynas â theithio rhyngwladol, ac yn sicrhau bod y cysondeb â Lloegr a'r gwledydd eraill yn parhau.

*Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol*

Nid yw'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn yn newid y ffaith bod y Rheoliadau Teithio Rhyngwladol yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol; mae'r Llywodraeth o'r farn y gellir eu cyfiawnhau at ddiben atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir ymyriad ar y sail ei fod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth o'r farn hefyd eu bod yn gymesur.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (“Deddf 1984”), a rheoliadau a wnaed oddi tani, yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Gwneir y Rheoliadau hyn drwy ddibynnu ar y pwerau yn adrannau 45B, 45C(1) a (3)(c), a 45P(2) o Ddeddf 1984. Mae'r Memoranda Esboniadol ar gyfer y [Rheoliadau Teithio Rhyngwladol](#) a'r [Rheoliadau Cyfyngiadau](#) yn rhoi rhagor o wybodaeth am y pwerau hyn.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol drwy wneud y newidiadau canlynol:

- Estyn y gydnabyddiaeth o dystysgrifau brechlyn penodol a ddyroddir gan wledydd a thiriogaethau Ewropeaidd ychwanegol, at ddibenion esemptiadau teithio o ran profi cyn ymadael a brechlynnau;
- Estyn y gydnabyddiaeth o frechiadau i ragor o wledydd a thiriogaethau

Belarws, Bolivia, Ecuador, Gweriniaeth Dominica, Gweriniaeth Ddemocrataidd Congo, Laos, Libya, Malawi, Mozambique, Samoa, Senegal, Vanuatu, Zambia a Zimbabwe;

- Ehangu'r diffiniad o "brechlyn awdurdodedig" drwy ddileu'r gofyniad ei fod i'w weinyddu mewn gwlad berthnasol a thrwy gydnabod brechlynnau penodol a gydnabyddir gan Sefydliad Iechyd y Byd;
- Dileu'r gofynion preswyllo ar gyfer teithwyr sydd wedi eu brechu yn Unol Daleithiau America, cyfranogwyr mewn treialon clinigol, a theithwyr o dan 18 oed;
- Esemptio pawb o dan 18 mlwydd oed rhag y gofyniad i ynysu;
- Cyflwyno dulliau pellach i deithwyr brofi eu bod wedi eu brechu, gan gynnwys tystysgrifau trydydd gwledydd a thiriogaethau a gymeradwywyd a thystysgrifau brechu taleithiau penodol yn yr Unol Daleithiau;
- Gwneud diwygiadau technegol pellach gan gynnwys ynghylch brechiadau fel rhan o raglen frechu'r DU dramor;
- Esemptio'r personau a ganlyn rhag y gofyniad i ddarparu gwybodaeth am deithiwr pan fônt wedi teithio i Gymru yng nghwrs eu gwaith (pa un a ydynt wedi teithio ar gludiant sy'n cario teithwyr ai peidio): gweithwyr cludiant ffyrdd; gweithwyr cludiant teithwyr ffyrdd; meistri a morwyr; peilotiaid ar longau masnach; arolygwyr a syrfewyr llongau; a chriw awyren;
- Dileu'r gofyniad i ynysu ar gyfer cludwyr nad ydynt yn preswyllo yn y DU pan nad ydynt yn gweithio;
- Dileu'r gofyniad i ddiplomyddion penodol gael awdurdodiad ysgrifenedig gan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu cyn dibynnu ar ddarpariaethau esemptio rhag ynysu. Mae rheoliad 9 hefyd wedi ei ddiwygio er mwyn cysoni esemptiadau rhag ynysu ar gyfer gweithwyr cludiant ffyrdd ni waeth beth fo'u statws preswyllo;
- Gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol pellach yn sgil y diwygiadau uchod.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diwygio'r Rheoliadau Cyfyngiadau, gan gynnwys estyn ymhellach y rhestr o wledydd a thiriogaethau fel bod tystiolaeth o frechu yn y gwledydd hynny â brechlynnau sydd wedi eu hawdurdodi yn y Deyrnas Unedig hefyd yn dderbyniol at ddibenion yr hyn a adwaenir yn gyffredin fel y pàs COVID. Mae angen y diwygiadau er mwyn cynnal cysondeb â'r diwygiadau cydnabod brechlynnau i'r Rheoliadau Teithio Rhyngwladol.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y diwygiadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

## 5. Ymgynghori

Oherwydd y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n deillio o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## **6. Aseiad Effaith Rheoleiddiol**

Ni chynhaliwyd unrhyw aseiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ymdrin â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.